Design: Eye Imagery TPNW Review DATE: October 4, 2010 7:13 PM

partneriaeth twristiaeth gogledd cymru
adolygiad blynyddol 2009-10
crynodeb gweithredol

Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government

TOURISM PARTNERSHIP North Wales
PARTNERIAETH TWRISTIAETH Gogledd Cymru

pethau i'w gwneud

short breaks
www.breaksnorthwales.co.uk

adventure
www.adventure-northwales.com

golf
www.golf-northwales.co.uk

walking
www.walkingnorthwales.co.uk

moviemap
www.moviemapnorthwales.co.uk

events
www.eventsnorthwales.co.uk

gardens
www.gardensnorthwales.co.uk

attractions
www.attractionsnorthwales.co.uk

walled towns
www.walledtowns.co.uk

giants
www.giantsnorthwales.co.uk

ambassadors
www.ambassadorsnorthwales.co.uk

rhagair

Bu'n flwyddyn anghyffredin ar sawl ystyr, blwyddyn a ddiffiniwyd gan yr heriau a'r cyfleoedd a gododd yn sgil yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd.

Mae'r gair 'staycation' wedi ei dderbyn fel rhan o eirfa twristiaeth erbyn ac yn fwy swyddogol o fod wedi ei gynnwys yng Ngeiriadur Saesneg Rhydychen.

Achosodd y dirwasgiad i lawer o bobl ailystyried eu cynlluniau gwario a dewisodd llawer dreulio gwyliau gartref yn lle hedfan dramor.

Erbyn canol y flwyddyn, roedd ambell lygedyn o obaith yn dechrau dod i'r golwg a llwyddodd y sector parciau gwyliau yn arbennig i ailgodi'n ardderchog.

Arweiniodd hyn i gyd at gynnydd mewn gwyliau teulu traddodiadol a gwyliau byr wrth i Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ymateb i'r amgylchiadau economaidd newidiol.

Bu'n gyfnod anodd yn y sector twristiaeth fusnes ond er hynny gwelwyd cynnydd cadarnhaol ac mae cadernid ac amrywiaeth yr arlwy sydd ar gael yn golygu bod gennym ddigon o resymau i fod yn optimistaidd wrth wynebu'r dyfodol.

Gan edrych ymlaen, rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau. Mae economi'r rhanbarth yn dibynnu'n drwm ac yn gynyddol ar dwristiaeth – ac rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan mewn creu llwybr newydd tuag at ffyniant.

Gallwn helpu i arwain Gogledd Cymru allan o'r dirwasgiad ac fe wnaethom ni ddechrau 2010 fel y bwriadwn fynd ymlaen pan ddadorchuddiwyd ein glasbrint ar gyfer y dyfodol yn y Galeri yng Nghaernarfon gan y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones AC.

Denodd y digwyddiad lawer iawn o gyhoeddusrwydd mewn papurau newydd ac ar y radio a'r teledu.

Nod Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru 2010-2015 yw dyrchafu'r rhanbarth i fod yn un o'r pum prif gyrchfan i ymwelwyr yn y DU a chynyddu'r refeniw y mae'r economi ymwelwyr yn ei gynhyrchu i £2 biliwn y flwyddyn.

Ddylem ni ddim bychanu'r her o gyflawni ein nodau sy'n fwriadol uchelgeisiol, ac ni fyddwn yn gwneud hynny.

Gadewch i ni fod yn gwbl glir, mae'r gystadleuaeth yn parhau i fod yn ffyrnig. Gallai ein cwsmeriaid ddewis mynd i lawer o leoedd eraill, gan fod dros 2,000 o gyrchfannau eraill o fewn dwy awr i'n meysydd awyr ym Manceinion, Lerpwl a Birmingham.

Ac felly ar adeg pan fo'r esgid yn gwasgu, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn sefydlu cysylltiadau gwaith cryfach byth gyda'n partneriaid masnach a'r sector cyhoeddus.

Mae pawb ohonom yn gorfod cyflawni mwy gyda llai o arian ac felly rhaid i ni fod yn fwy craff a chydweithredol yn y ffordd rydym yn gweithio er mwyn gwneud i'n hadnoddau ariannol cyfunol fynd ymhellach, gan wasgu'r gwerth mwyaf posib o bob punt a wariwn.

Mae gan Ogledd Cymru lawer i'w gynnig fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae gennym y golygfeydd a'r asedau naturiol i'ch swyno'n llwyr.

Bellach mae'r cysylltiadau ffordd a rheilffordd yn wych, fel nad oes ond dwy awr o daith rhyngom a phoblogaeth chwarter y DU, y bobl sy'n byw yng nghytrefi Gogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr.

Does dim rhaid i chi giwio mewn maes awyr yma, a dydyn ni ddim ar drugaredd grymoedd allanol fel cymylau llwch - rydym yn hygyrch ac yn fforddiadwy.

Fwy a mwy, mae defnyddwyr yn chwilio am werth am arian tra bod eu disgwyliadau o ran safon yn codi drwy'r amser – ac yn iawn felly.

Yr her i ni yw bodloni a rhagori ar eu disgwyliadau.

Neil Rowlands
Cadeirydd

Dewi Davies
Cyfarwyddwr Strategol Rhanbarthol

Tudalen Flaen ac uchod: Golygfeydd o gopa'r Wyddfa.

crynodeb gweithredol

Prif ddigwyddiad y flwyddyn oedd cyflwyno ein strategaeth newydd.

Mae'n cwmpasu'r cyfnod tan 2015 ac yn cynnwys cynlluniau gweithredu tair blynedd fydd yn cael eu diweddaru ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Orllewin Cymru.

Mae'r targedau allweddol yn cynnwys dod yn un o bum prif gyrchfan y DU ar gyfer ymwelwyr a buddsoddi yn rhagoriaeth yr arlwy twristiaeth, gan gynnwys y sector gweithgareddau awyr agored sy'n tyfu.

Ein huchelgais yw cynyddu'r incwm gan ymwelwyr i £2 biliwn y flwyddyn.

Nod y strategaeth yw creu 'waw ffactor' i ymwelwyr trwy roi croeso cynnes a gwasanaeth da mewn lle glân a thaclus i sicrhau eu bod yn mwynhau profiad cwbl arbennig.

Ar yr un pryd, rhaid i ni wneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o'n cyllideb farchnata trwy gydweithredu mwy â'n partneriaid.

Rydym wedi cymryd camau bras ymlaen yn hyn o beth. Gan weithio ar gyllideb is, llwyddodd ein hymgyrchoedd i gynhyrchu £15 miliwn ychwanegol mewn gwariant ac yn arwyddocaol, roedd yr elw ar yr hyn a fuddsoddwyd yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol. Am bob £1 a wariwyd gennym, fe wnaethom ni gynhyrchu £26.

Aeth y broses o symud ein hymgyrchoedd marchnata i'r Rhyngrwyd yn ei blaen, fel ffordd o dderbyn realaeth y byd sydd ohoni yn ogystal â bod yn ffordd fwy effeithiol byth o werthu Gogledd Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr.

Hyd yn oed cyn y wasgfa gredyd, roedd gwyliau byr yn datblygu i fod yn rhan gynyddol bwysig o'r economi ymwelwyr ac erbyn hyn maent yn gyfrifol am ran fawr o'r farchnad.

Yn y cyfamser trodd rhith ymwelwyr yn ymwelwyr go iawn, diolch i lwyddiant ymgyrch farchnata ar-lein yn hyrwyddo atyniadau'r rhanbarth.

Mewngofnododd oddeutu 170,000 o "ymwelwyr unigryw" i'r wefan atyniadau gan bwmpio £300,000 i'r economi rhanbarthol - y cwbl am fuddsoddiad o £15,000.

Denwyd nifer fawr o deuluoedd â phlant ifanc gennym oherwydd ansawdd, amrywiaeth a fforddiadwyedd yr atyniadau sy'n cael eu cynnig.

A Chwpan Ryder Cymru 2010 ar y gweill, roedd ein hymgyrch Golff Gogledd Cymru ar ei hanterth ac erbyn hyn mae'r gwasanaeth archebu ar-lein newydd ar gyfer golffwyr wedi arwain at £500,000 ychwanegol mewn ffioedd grin i'r clybiau dan sylw.

Roedd newyddion mawr hefyd ynglŷn â'n hymgyrch i ddathlu cewri'r rhanbarth, boed yn gewri diwylliant, hanes a natur neu gewri o wneuthuriad dyn fel Hafod Eryri ar gopa'r Wyddfa sydd wedi ennill gwobrau a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Roedd disgwyl i'r cewri greu £1 miliwn o wariant ychwanegol.

Ar ben arall y sbectrwm twristiaeth, gwnaed ymdrech fawr i ddenu mwy o gynadleddau, cyfarfodydd ac arddangosfeydd i'r rhanbarth.

Mae'r farchnad twristiaeth fusnes yn werth dros £13 miliwn y flwyddyn ac mae gobaith y bydd yn creu cynnydd o hyd at 20 y cant mewn refeniw.

Dangosodd arolwg ymwelwyr a gomisiynwyd gan Croeso Cymru, wedi ei ariannu'n rhannol gan y Bartneriaeth Twristiaeth ac awdurdodau lleol y rhanbarth ein bod ar y trywydd cywir.

Roedd naw deg a naw y cant o ymwelwyr yn gadarnhaol ynghylch Gogledd Cymru, gyda 56 y cant yn dweud bod yr ardal yn rhagorol a 90 y cant o'r farn bod y bobl yma'n gyfeillgar.

Yn y cyfamser, gwerthfawrogai 87 y cant o ymwelwyr y croeso cynnes a gawsant ac roedd 93 y cant yn bwriadu dod yn ôl i Ogledd Cymru tra bod 96 y cant ohonynt yn bwriadu argymell Cymru i'w teulu a'u ffrindiau.

Rydym yn defnyddio dulliau modern i elwa i'r eithaf ar ein cryfderau traddodiadol.

Uchod: *Dathlu statws Treftadaeth y Byd i Draphont Ddŵr Pontcysyllte.*

Chwith bellaf: *Lansio'r Strategaeth Twristiaeth yn y Galeri, Caernarfon.*

Chwith: *Beicio mynydd yng Nghoed Llandegla.*

Chwith isaf: *Y Gweinidog Treftadaeth Alun Ffred Jones gyda Dewi Davies a Neil Rowlands adeg lansio'r Strategaeth.*

cynllun busnes

brandio trawiadol

Un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn oedd parhau i ddatblygu a chyfleu ein brand trawiadol.

Ein hymdeimlad unigryw o le oedd yr edefyn aur yng ngwead ein holl ymgyrchoedd, oedd i gyd yn cydymffurfio â Brand Gogledd Cymru.

Roedd y pwyslais ar gyflwyno delwedd ddeniadol a chyson o'r rhanbarth i ddarpar ymwelwyr, un sy'n ein gosod ar wahân i gyrchfannau ymwelwyr eraill.

Mae'r cynnig brandio rydym ni'n ei hyrwyddo yn seiliedig ar y maes chwarae awyr agored, Y Byd Awyr Agored.

Mae'r ymgyrch Gwyliau Byr Gogledd Cymru yn dal i fod yn elfen bwysig o'n ffordd strategol o weithredu.

Mae gan y wefan gyfleuster archebu ar-lein ar gyfer dros 100 o fusnesau. Yn ystod y flwyddyn cynhyrchodd 70,000 o ymweliadau unigryw, gyda 10 y cant ohonynt yn mynd ymlaen i holi ynglŷn â threfnu lle.

Newidiwyd ffocws yr ymgyrch Cewri Gogledd Cymru i ganolbwyntio ar wyth atyniad mawr eiconig gan gynnwys Castell Caernarfon, Portmeirion, Yr Wyddfa, Amgueddfa Lechi Cymru, Pont Menai, Eglwys Gadeiriol Llanelwy a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.

Targedwyd y farchnad teithiau grŵp yn benodol gyda chynnig arbennig ar y cyd â Threnau Arriva Cymru fel bod aelodau o'u Clwb 55 yn cael gostyngiad wrth ymweld ag atyniadau.

Yn y cyfamser, mae nifer yr ymwelwyr sy'n cael gwyliau antur yma wedi parhau i gynyddu er gwaethaf effeithiau rhagolygon economaidd anodd a dirwasgiad byd-eang.

Amlinellwyd cynlluniau i ddatblygu ar sail y llwyddiant hwnnw yn y fforwm blynyddol a drefnwyd gan y Bartneriaeth Twristiaeth i randdeiliaid antur o bob cwr o Ogledd Cymru.

Ymgyrch arall sy'n gwneud yn fawr o'n cryfderau yw Cerdded Gogledd Cymru – ac mae'n farchnad anferth o ran ei phosibiliadau.

Mae cerdded dair gwaith yn fwy poblogaidd na nofio, yr ymarfer corfforol agosaf ato o ran poblogrwydd, gyda 44.5 y cant o oedolion yn mwynhau taith gerdded o dros ddwy filltir yn rheolaidd.

Trefnwyd gwyliau cerdded newydd a chyffrous a chyflwynwyd eLwybrau newydd gennym; y cwbl sydd ar y cerddwr ei angen wedyn yw ffôn symudol i gael gwybodaeth am dirnodau a nodweddion daearyddol wrth fynd ymlaen ar hyd taith gerdded neilltuol.

O ran technoleg newydd, manteisiwyd i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r cyfryngau newydd yn eu cynnig ac rydym wedi gwneud cynnydd trwy gyfrwng Facebook a Twitter ble mae pobl yn siarad am Ogledd Cymru erbyn hyn fel nefoedd i gerddwyr.

Mae'n dda iawn gennym allu adrodd bod Prestatyn, Rhuddlan, Pentrefoelas, Llanfairfechan a Phenmaenmawr i gyd wedi ymuno erbyn hyn â'r cynllun Croeso i Gerddwyr.

Rydym hefyd wedi bod yn denu ymwelwyr yn sgil diddordeb hamdden arall poblogaidd, sef garddio.

Amcangyfrifir bod 20 miliwn o arddwyr yn y DU felly mae Gerddi Gogledd Cymru'n ymgyrch ble'r ydym wedi bod yn meithrin twf.

Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod anodd, mae'r farchnad dwristiaeth fusnes yn un allai fod yn werth llawer iawn o arian ac rydym wedi mynychu digwyddiadau cenedlaethol i hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan gyda'r gorau ar gyfer cynadleddau, cyfarfodydd ac arddangosfeydd.

Rydym hefyd wedi cefnogi ymdrechion i ddenu mwy o longau mordaith i angori yng Nghaergybi a bu rhagor o dwf yn ystod y flwyddyn gyda chyfanswm o 13 o longau mordaith wedi trefnu i aros yno.

Rhoddwyd cymorth yn benodol i sicrhau profiad cadarnhaol i deithwyr tra oeddent ar y lan gyda theithiau i Ynys Môn, Eryri ac ardal arfordir Conwy.

O ran y farchnad dramor, buom yn cydweithio'n agos â Chyngor Gwynedd, fel yr asiantaeth arweiniol, er mwyn sicrhau bod yr ymgyrch Tramor yn parhau i fynd o nerth i nerth.

gwell ansawdd

Mae argraffiadau cyntaf yn bwysig, a'n nod felly fu gwneud Gogledd Cymru'n gyrchfan fwy deniadol byth gan greu'r profiad gorau posibl i ymwelwyr.

Yn sgil hynny, rydym wedi buddsoddi llawer iawn o amser ac ymdrech mewn datblygu cynllun rheoli cyrchfannau fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws bob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

Un flaenoriaeth fu cryfhau ein hymdeimlad unigryw o le fel ffordd o wneud ein harlwy mor drawiadol â phosib. Ar yr un pryd roeddem yn gweithio i gyfarwyddo awdurdodau lleol wrth iddynt lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol fel eu bod yn arwain at dwf yr economi dwristiaeth.

Mae lle i wella yn nifer o'n trefi gan eu bod wedi dirywio o ran eu golwg yn sgil y sefyllfa economaidd.

Fel rhan o'r broses aethom ar deithiau dysgu i weld arfer gorau ar waith. Un o'r profiadau mwyaf nodedig oedd yr ymweliad â Inverness, Speyside a Fort William yn yr Alban i astudio cyfrinachau eu llwyddiant.

Mae'n bwysig buddsoddi yn rhagoriaeth ein cynnyrch oherwydd y gystadleuaeth o gyrchfannau'r DU a thramor sy'n buddsoddi'n sylweddol yn eu cynnyrch eu hunain.

Felly rydym wedi parhau i annog a chefnogi gwella ac uwchraddio pob math o lety ac atyniadau trwy hyrwyddo'r cynlluniau sicrhau ansawdd, cymorth busnes a mentora, cydnabod arfer da a chymorth ariannol.

Wrth i ni ddatblygu ein cynnyrch, fe'i cydlynwyd i gydredeg â Chynlluniau Gofodol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda Fforwm Economaidd Gogledd Cymru a'r awdurdodau lleol.

Roedd y gwaith yn cynnwys adnabod blaenoriaethau ar gyfer arian Rhaglen Cydgyfeiriant yr UE, arian Echel 3 ac Echel 4 y Partneriaethau Datblygu Gwledig, ac yn asio i'n strategaeth pum mlynedd newydd.

Wrth i'r flwyddyn fynd heibio, cynyddai'r cyffro wrth i olffwyr edrych ymlaen at Gwpan Ryder Cymru 2010.

Yma yng Ngogledd Cymru rydym wedi bod yn manteisio ar fwrlwm Cwpan Ryder Cymru 2010 i ddenu mwy o olffwyr i'r rhanbarth.

Bu cynnydd anferth mewn archebion ar-lein sydd wedi cynhyrchu bron i £500,000 mewn ffioedd grin dros y tair blynedd ddiwethaf.

Bu'r wefan www.golf-northwales.co.uk a luniwyd ac sy'n cael ei rhedeg gan y prif gwmni amser ti ar-lein, BRS, yn ganolog i lwyddiant yr ymgyrch.

Gall cwsmeriaid archebu ar-lein a gweld lluniau hefyd o'r gwahanol gyrsiau golff yn ogystal â manylion am gynigion arbennig a llety cyfagos.

Cefnogodd y Bartneriaeth Twristiaeth gyfleuster archebu siop golff un stop ym Mae Colwyn hefyd a gynhyrchodd £150,000 o fusnes ac fe wnaethom hwyluso gwerthu bron i 500 tocyn i gyrsiau golff ar Ynys Môn.

Yn y cyfamser, mae Antur Gogledd Cymru wedi parhau i ddatblygu fel cyfrwng i hyrwyddo'r rhanbarth fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Fel rhan o'r ymgyrch, fe wnaethom ni osod her i weld a allai unrhyw un gymryd rhan mewn 15 gweithgaredd antur mewn un diwrnod a llwyddodd hyn i ddenu llawer iawn o gyhoeddusrwydd ar-lein a thrwy bapurau newydd a chylchgronau.

mynediad rhwyddach

Rydym wedi ymrwymo i wneud Cymru'n fwy hygyrch fel cyrchfan ymwelwyr.

Mae marchnata ar y we a chyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y dasg o'n helpu i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'n cwsmeriaid.

Parhaodd y Bartneriaeth Twristiaeth i gefnogi Web4-U, gwasanaeth rhad ac am ddim i fusnesau cysylltiedig â thwristiaeth yng Ngogledd Cymru.

Mae'n darparu templed ar gyfer e-newyddlenni y gellir eu teilwra i gyd-fynd ag anghenion busnesau unigol fel ffordd o greu deunydd marchnata electronig. Erbyn hyn mae 1,200 o fusnesau wedi ymuno â'r cynllun.

Ariannwyd cyfleuster archebu canolog traddodiadol gennym ym Mae Colwyn hefyd a gynhyrchodd tua 5,000 o nosweithiau aros, yn cyfateb i werth £500,000 bron o wariant gan ymwelwyr.

Roedd Digwyddiadau Gogledd Cymru'n parhau i fod yn gyfrwng pwysig ar gyfer darparu gwybodaeth am dros 314 o ddigwyddiadau a gynhelir yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn ac rydym yn ddiolchgar am



Y Cyn Gomando Morol Sean Taylor yn Tree Tops, cwrs antur rhaffau uchel ger Betws-y-Coed.

y gwaith a wnaed gan ein partneriaid yn Twristiaeth Gogledd Cymru sydd wedi bod wrthi'n ddygn yn cyflenwi'r wybodaeth angenrheidiol.

Caiff y data ei fwydo'n awtomatig i'r tudalennau Visit Britain perthnasol, gan roi'r holl fyd o fewn ein cyrraedd o ran cyfathrebu â chwsmeriaid posib.

Mae gwefan Atyniadau Gogledd Cymru, ble rhestrir 188 o atyniadau, wedi bod yn arbennig o effeithiol, gan gofnodi 170,000 o ymweliadau unigryw.

gwell sgiliau

Roedd gwella sgiliau pobl sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth yn flaenoriaeth strategol eto eleni.

Roeddem yn drist o weld ein perthynas â Hyfforddiant Twristiaeth i Gymru'n dod i ben ond fe wnaethom ymdrechu'n galetach nag erioed mewn cyfeiriadau eraill.

Bu'r Bartneriaeth Twristiaeth yn gweithio'n agos gyda cholegau Addysg Bellach, gyda'r sector awyr agored, gyda'r sector parciau gwyliau, a'r sector lletygarwch i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn cael eu recriwtio.

Y nod yw gwella eu sgiliau fel eu bod yn cael cyfle i gychwyn ar yrfa fydd yn rhoi bywyd gwerth chweil iddynt.

Mewn rhannau o Ogledd Cymru, rydym wedi gweld llifeiriant o bobl ifanc yn mynd i fyw a gweithio tu allan i'r ardal. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ymladd yn ei erbyn oherwydd mae'n gwanhau ein cynnig.

Fel rhan o'n cymorth i'r sector atyniadau, aethom ati i drefnu cyfres o deithiau dysgu gan gynnwys taith i Ogledd Ddwyrain Lloegr i weld sut mae atyniadau yno wedi bod yn buddsoddi ac yn eu gwneud eu hunain yn fwy cystadleuol.

partneriaethau cryfach

Roedd adeiladu partneriaethau cryfach yn flaenoriaeth allweddol. O ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y sector masnach a'r sector cyhoeddus.

O ganlyniad i hyn, rydym wedi rhoi tua £40,000 o arian i bob un o'r pum Partneriaeth Ardal Farchnata yng Ngogledd Cymru.

Ar Ynys Môn, rhoesom gymorth i brynu delweddau newydd ac i greu gwefan un-stop, ynghyd ag ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus i leoli storïau yng Ngogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr a thu hwnt i ddweud wrth y byd am y perlau sydd gan yr ynys i'w cynnig.

Ym Mynyddoedd ac Arfordir Eryri, fe wnaethom gefnogi ymgyrch farchnata uniongyrchol gyda Croeso Cymru a Chyngor Gwynedd. Llwyddwyd i berswadio Partneriaeth Twristiaeth Llŷn i ddod yn sefydliad ambarél ar gyfer nifer o gyrff twristiaeth llai hefyd. Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn arbennig o fodlon bod y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones AC, wedi agor Canolfan Groeso Abersoch yn swyddogol.

Cefnogwyd ymgyrch farchnata ar y cyd gennym hefyd yn Nhrefi Gwyliau'r Gorllewin i hyrwyddo rhai o'u prif ddigwyddiadau fel Gwledd Conwy a'r Ffair Aeaf Geltaidd. Ar yr un pryd, fe wnaethom fuddsoddi i wella ansawdd atyniadau Llandudno yn cynnwys datblygu ffilm fideo o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig.

Yn Nhrefi Gwyliau'r Dwyrain gerllaw, datblygodd y prosiect ychydig yn fwy araf ond cefnogwyd ymweliad taith grŵp gennym er mwyn i newyddiadurwyr, golygyddion a threfnwyr grwpiau gael gwell gwybodaeth am yr arlwy bendigedig sydd yno a neilltuwyd adnoddau ar gyfer ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus yn y trefi glan môr gennym hefyd.

I'r dwyrain, yng Ngororau Gogledd Cymru, rhoesom arian ar gyfer taflenni atyniadau newydd yn ogystal â helpu i ddatblygu llyfrgell ffotograffau wedi ei huwchraddio o'r cyrsiau golff.

Golygfa o Waenysgor o Brestatyn a'r Rhyl.

Cyfarwyddwyr Masnach

Neil Rowlands	Cadeirydd
Darryl Shaw	Is-gadeirydd
James P S Hewett	Mynyddoedd ac Arfordir Eryri
Nia Rhys Jones	Rhanbarth Arfordir Gogledd Cymru
Phil Nelson	Cyffredinol
Anwen Jones	Cyffredinol
Andrew Baker	Cyffredinol

Cynghorwyr Masnach i'r Bwrdd

John Les Tomos	Cymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint

Cyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol

Cyng R H Wyn Williams	Cyngor Gwynedd / Is-gadeirydd
Cyng David Thomas	Cyngor Sir Ddinbych
Cyng Bryan Owen	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Goronwy Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng Gail Hall	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyng Tony Sharps	Cyngor Sir y Fflint
Dr Dawn Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae fersiwn lawn o Adolygiad Blynyddol 2009-10 ar gael yn www.tpnw.org